PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: EBRILL 2006 - MAWRTH 2007

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn un o saith Pwyllgor Pwnc y Cynulliad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar hynt eu rhaglenni gwaith. Mae'n crynhoi gwaith y Pwyllgor rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006. Mae'n crynhoi gwaith y Pwyllgor o fis Ebrill 2005 tan fis Mawrth 2006.

2. AELODAETH

2.1 Dyma aelodau presennol y Pwyllgor: Glyn Davies (Cadeirydd), Lorraine Barrett, Mick Bates, Jocelyn Davies, Tamsin Dunwoody, Elin Jones, Carwyn Jones (Gweinidog) a Brynle Williams.

3. CYLCH GWAITH A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones, syn cynnwys: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3.2 Rhestrir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc yn Rheol Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn sôn am agweddau penodol ar waith y Pwyllgor o dan y penawdau a ganlyn:

4. GWAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YMA

4.1 Cynhaliodd y Pwyllgor 16 cyfarfod ffurfiol yn ystod y cyfnod dan sylw. Cyfarfodydd cyhoeddus oeddynt i gyd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y Pwyllgor ac er mwyn gwneud ei drafodion yn fwy hygyrch, cynhaliwyd tri ohonynt mewn lleoedd gwahanol yng Nghymru: ar 26 Hydref 2006 yng Nghanolfan Ymwelwyr Gogledd Cymru ym Mae Colwyn, ar 30 Tachwedd 2006 yn adeilad LANTRA ar faes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd; ac ar 1 Mawrth 2007 yn Principality House yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Datblygu polisïau (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

Rheoli Gwastraff

Ar ôl cyhoeddi trydydd ymchwiliad y pwyllgor, sef *Cyrraedd Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu*, ym mis Awst 2005, parhaodd y Pwyllgor i ymddiddori mewn materion rheoli gwastraff ac ar 25 Ionawr 2007, bu'n craffu ar waith Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynglŷn â'i ran yn y gwaith o reoleiddio rheoli gwastraff ac ar waith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â gweithredu strategaeth y Llywodraeth, sef *Yn Gall Gyda Gwastraff*. Clywodd y Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf o ran darparu safleoedd tirlenwi gan ystyried y gwahanol bosibiliadau ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol.

Agweddau ar Gynllunio yng nghyswllt Offer Telathrebu Symudol

Ymgymerodd y Pwyllgor â gwaith yn y cyswllt hwn yn dilyn ymateb y Gweinidog i ddadl Rheol Sefydlog 31, a gynigiwyd gan Janet Davies AC. Dechreuodd y Pwyllgor drwy drafod papur gan y Gweinidog, a oedd yn egluro'r ddeddfwriaeth a'r polisi cyfredol a'r canllawiau technegol ynghylch system cynllunio defnydd tir, gan roi sylw penodol i hawliau datblygu a ganiateir. Ar 28 Mehefin, casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mobile Operators Association a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Canolbwyntiwyd ar faterion fel cyfathrebu addas, ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â lleoli mastiau ac a oedd y ddogfen, *Code of Best Practice on Mobile Phone Network Development*, a gyhoeddwyd yn 2003, a'r canllawiau cynllunio presennol, yn addas. Cytunodd y Pwyllgor a gosododd ei adroddiad gerbron y Cynulliad yn unol â phrotocol y Pwyllgor Busnes ar gyfer delio ag adroddiadau Pwyllgorau a thrafododd ymateb y Gweinidog yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr.

Dyfodol ymchwil amaeth-amgylcheddol yng Nghymru - IGER

Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu ymchwiliad byr i waith ymchwil amaeth-amgylcheddol, ac yn benodol i ddyfodol IGER, at ei flaenraglen waith strategol. Ar 15 Mehefin, casglodd dystiolaeth gan: Lywodraeth Cynulliad Cymru; Defra; Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol. Biotechnical and Biological Sciences Research Council; IGER; and Coleg Llysfasi. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar sefydlogrwydd y cyllid ar gyfer y sector o ystyried y newidiadau ym mlaenoriaethau strategol y Llywodraeth, materion llywodraethu; a'r mater ehangach yn ymwneud â chymhwyso gwaith ymchwil a datblygiadau yn y diwydiant. Cytunodd y pwyllgor ar ei adroddiad ar 14 Gorffennaf. Gosodwyd yr adroddiad gerbron y Cynulliad ar 21 Gorffennaf. Trafododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog ar 15 Tachwedd.

TAN 15

Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf, gofynnodd yr Aelodau i'r Pwyllgor gynnal adolygiad byr o'r broses o weithredu TAN15, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004, o gofio nifer yr achosion a gafodd gryn sylw lle'r ymddengys

bod y canllawiau wedi creu problemau. Yn gyffredinol, croesawyd gwaith y Pwyllgor yn y cyswllt hwn ac roedd y prif randdeiliaid i'w gweld yn awyddus iawn i ddatrys y gwrthdaro rhwng y blaenoriaethau. Ysgrifennodd y Pwyllgor ar bob awdurdod lleol yn gofyn iddynt roi gwybod iddynt am unrhyw broblemau yn eu hardaloedd. Cafwyd deuddeg ymateb. Cafodd y Pwyllgor ymateb hefyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Paratowyd adroddiad ysgrifenedig yn crynhoi'r ymatebion. Ar ôl ystyried y materion a ddaeth i'r amlwg, cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad terfynol ar 25 Ionawr 2007. Gosodwyd yr adroddiad gerbron y Cynulliad ar 2 Chwefror. Nid oedd y Gweinidog yn gallu ymateb i'r Pwyllgor cyn diwedd yr Ail Gynulliad.

Cynllun Gofodol Cymru – cynllunio a'r amgylchedd

O gofio cyfrifoldeb y Pwyllgor i gysgodi'r gwaith cynllunio ym mhortffolio'r Gweinidog, fel y mae'r 1/2 eitem ddiwethaf yn amlygu, bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod Cynllun Gofodol Cymru. Ar 13 Gorffennaf, cafodd yr Aelodau bapur gan y Gweinidog yn amlinellu hynt y gwaith o weithredu goblygiadau'r Cynllun o ran cynllunio. Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i amlinellu yn y Llawlyfr ar gyfer Cynlluniau Datblygu 2006, sy'n cynnwys cyngor technegol ar integreiddio'r cynllun â Chynllun Gofodol Cymru a chasglodd dystiolaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Twbercwlosis mewn gwartheg

Parhaodd y Pwyllgor i gael gwybodaeth gan y Gweinidog yn rheolaidd am waith Grwp Gweithredu Cymru ar TB a'r datblygiadau o ran trin Twbercwlosis mewn Gwartheg a hawlio iawndal. (Gweler hefyd fanylion *Gorchymyn Iawndal Gwartheg (Cymru) 2006* o dan Is-ddeddfwriaeth. Yn ei gyfarfod ar 28 Medi trafododd y pwyllgor gasgliadau cychwynnol yr arolwg o foch daear marw, a thrafododd yr adroddiad terfynol ar 14 Mawrth. Parhaodd yr Aelodau i fynegi pryder ynghylch cyflwyno profion cyn symud.

Y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Cynllun Tir Mynydd

Parhaodd y Pwyllgor i drafod y Cynllun Datblygu Gwledig olynol a'r mater cysylltiedig yn ymwneud â dyfodol taliadau Tir Mynydd. (Gweler hefyd – *Y Gyllideb* - isod). Ar 24 Mai 2006, trafododd yr adroddiad ar yr ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch dyfodol taliadau Tir Mynydd. Yn ei gyfarfod nesaf, trafododd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Datblygu Gwledig olynol ac ar 28 Mehefin edrychodd ar y cynllun drafft.

Strategaeth Amgylcheddol Cymru – Cynllun Gweithredu

Cafodd Strategaeth Amgylcheddol Cymru a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ei lansio ym mis Mai 2006. Diben sesiynau casglu tystiolaeth y Pwyllgor ar 28 Medi ac 14 Mawrth oedd holi'r cyrff allweddol yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol, a oedd yn gyfrifol am lawer o'r gwaith o gyflwyno'r

Cynllun Gweithredu, a oeddynt yn cael digon o gymorth, arian ac arweiniad i wneud eu gwaith. Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan y cyrff hyn a oedd yn amlinellu'r materion a'r anawsterau a oedd yn eu hwynebu wrth iddynt sicrhau canlyniadau.

Cynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Llaeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru ar 29 Ionawr er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth am y cynllun yn ei gyfarfodydd ar 7 Chwefror ac 1 Mawrth. Dyma'r tystion: J Sainsbury plc; NFU Cymru; Undeb Amaethwyr Cymru. Cyflwynodd y cyrff dystiolaeth ysgrifenedig hefyd cyn y cyfarfodydd. Roedd adroddiad y Pwyllgor, y cytunwyd arno ar 14 Mawrth, yn crynhoi'r prif faterion a godwyd. Gosodwyd yr adroddiad gerbron y Cynulliad a'i gyflwyno'r Gweinidog fel ymateb ffurfiol y Pwyllgor i'r ymgynghoriad.

Biomas a biodanwydd

Yn dilyn cyfarfod ym mis Mawrth 2006 pan archwiliodd y Pwyllgor bosibiliadau'r diwydiant biomas a biodanwydd yng Nghymru ar y cyd â'r gymuned wyddonol a'r undebau amaethyddol, ym mis Mai 2006, trafodwyd effaith bio-ynni ar fioamrywiaeth gan ofyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac RSPB Cymru roi tystiolaeth. Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad ym mis Mehefin 2006, cyn ei osod gerbron y Cynulliad. Y mae'n aros am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Monitro'r broses o weithredu argymhellion y Pwyllgor

Ar 25 Ionawr, craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog o ran gweithredu argymhellion tri ymchwiliad cyntaf y Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad - *Materion cynllunio'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad; Twbercwlosis mewn Gwartheg. Cyrraedd Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu.*

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau gan y Gweinidog yn rheolaidd gan ei alluogi i graffu ar y polisïau a'r penderfyniadau y mae'n gyfrifol amdanynt. O gofio bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos, paratôdd y Gweinidog adroddiad ysgrifenedig llawn ac adroddiad llafar ar faterion o fewn ei bortffolio ym mhob yn ail cyfarfod.

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

Yn ystod tymor yr hydref 2006, craffodd y Pwyllgor ar waith Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o fewn portffolio'r Gweinidog: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru; Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Comisiwn Coedwigaeth Cymru; ac Arolygiaeth Cynllunio Cymru. Gofynnwyd i bob un baratoi tystiolaeth o berfformiad yn erbyn targedau ar gyfer 2005-06 ac i dynnu sylw

at yr anawsterau a fydd yn eu hwynebu yn y dyfodol, gan gyfeirio'n benodol, lle bo hynny'n briodol, ar eu llythyrau cylch gorchwyl, eu cyfraniad at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad, ac unrhyw faterion gweithredu neu ariannu y dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8(i))

Deddfwriaeth Sylfaenol

Cafodd y Mesur Morol ei anfon at y Pwyllgor ym mis Mehefin 2005, yn dilyn dadl yn y cyfarfod llawn ar araith y Frenhines. Ym mis Mawrth 2006, cyhoeddodd Defra ddogfen ymgynghori ar Fesur Morol. Ar 11 Mai, cafodd y Pwyllgor bapur sefyllfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y cynigion a fyddai'n cael yr effaith mwyaf ar Gymru. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y prif randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad ar 24 Mai a chytunodd ar ei ymateb ar 15 Mehefin. Anfonwyd yr ymateb at Defra a'i osod gerbron y Cynulliad. Trafododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr.

Ym mis Tachwedd 2006, anfonwyd y Mesur Newid yn yr Hinsawdd at y Pwyllgor er mwyn iddo graffu arno. Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007, trafododd y Pwyllgor bapur sefyllfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru - *Cynigion ar gyfer Mesur Newid yn yr Hinsawdd.* Mae'r papur yn nodi cynnwys tebygol y Mesur a chyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r trafodaethau am bwerau fframwaith a swyddogaeth y Pwyllgor Carbon, a gaiff ei sefydlu os cytunir ag un o gynigion canolog y Mesur.

Is-ddeddfwriaeth

Cafodd y Pwyllgor amserlen fanwl ar gyfer is-ddeddfwriaeth arfaethedig ym mhortffolio'r Gweinidog bob hanner tymor. Gofynnodd y Pwyllgor am nifer o newidiadau i'r rhestr yn ystod y flwyddyn i helpu Gweinidogion i nodi dim ond yr eitemau hynny o ddeddfwriaeth yr oedd y cyfrifoldeb drostynt wedi'i ddatganoli'n llawn neu'n rhannol i'r Gweinidog ac i roi gwybod i'r Aelodau am y drefn ar gyfer trin eitemau o ddeddfwriaeth sydd heb eu cynnwys yn rhaglen y Trydydd Cynulliad.

Lle'r oedd hynny'n briodol, chwiliodd y Pwyllgor am gyfleoedd i nodi a chraffu ar eitemau o is-ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â deddfwriaeth sylfaenol yr oedd y Pwyllgor wedi craffu arni gynt, a gwnaeth hynny ar sawl achlysur. Yng nghyswllt dwy eitem o is-ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â Deddf Lles Anifeiliaid 2006, sef *Rheoliadau Tocio Cynffonau Cwn Gwaith (Cymru) 2007* a *Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Cymru) 2007,* comisiynodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan brif randdeiliaid a oedd â safbwyntiau gwrthgyferbyniol.

Ar ôl i'r Pwyllgor a'r cyfarfod llawn wrthod *Gorchymyn Iawndal Gwartheg (Cymru) 2006* ym mis Mawrth 2006, daeth y Gweinidog yn ôl at y Pwyllgor gyda dewisiadau a chynigion newydd ar ddau achlysur – 30 Tachwedd ac 14 Mawrth 2007.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, trafododd y Pwyllgor 25 eitem o is-ddeddfwriaeth, ac mae'r manylion i'w gweld yn **Atodiad 1**. Yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gosodwyd adroddiadau craffu'r Pwyllgor gerbron y Cynulliad.

Materion Ewropeaidd

Drwy gydol y flwyddyn, cafodd yr Aelodau adroddiadau'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt eitemau'n ymwneud â materion Ewropeaidd sy'n rhan o'r portffolio. Aeth y Pwyllgor hefyd i Frwsel ar 12-14 Medi 2006, lle cyfarfu'r Aelodau a Swyddogion ag uwch swyddogion Cabinet y Cyfarwyddwyr Cyffredinol perthnasol.

Ar 5 Ebrill 2006, cafodd y Pwyllgor bapur sefyllfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Strategaeth Gwastraff yr UE.

Trafododd y Pwyllgor y ddogfen *"Cyfathrebiad y CE ar Atal Colled Bioamrywiaeth erbyn 2010 - ac wedyn: Cynnal gwasanaethau ecosystemau er lles pobl"* ar dri achlysur, ddwywaith gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar 11 Hydref 2006 gydag aelod Cabinet Comisiynydd yr Amgylchedd yn y Comisiwn Ewropeaidd, Stavros Dimas. Cynhaliwyd y drafodaeth drwy ddefnyddio technoleg fideo-gynadledda, gan gysylltu'r Pwyllgor yn uniongyrchol â Brwsel; y tro cyntaf i'r Pwyllgor a'r Cynulliad wneud hyn. Defnyddiodd y Pwyllgor y cyfleuster hwn ddwywaith wedyn. Ar 15 Tachwedd, trafododd yr archwiliad o gyflwr a modiwleiddio PAC yn y dyfodol gydag un o uwch Aelodau Cabinet Comisiynydd Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd, Marian Fischer Boel. Yn ystod cyfarfod olaf y Pwyllgor ar 14 Mawrth 2007, trafododd Bapur Gwyrdd yr UE ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd gyda swyddog o'r Comisiwn Ewropeaidd a oedd ar secondiad yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac a oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r ddogfen.

Trafododd yr Aelodau oblygiadau'r trafodaethau Ewropeaidd parhaus ynghylch rheolau modiwleiddio gwirfoddol sy'n bwysig o ran y DU ac o ran ariannu Cynlluniau Datblygu Gwledig Cymru.

Cafodd Strategaeth Morol yr UE – *Tuag at Bolisi Morol ar gyfer yr Undeb yn y dyfodol* - ei nodi gan Bwyllgor yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau i'w thrafod ymhellach. Comisiynodd y ddau bwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a chynhaliwyd cyfarfod ar y cyd ar 8 Mawrth, a oedd yn cynnwys sesiwn fideo-gynadledda gyda Pennaeth Gweithlu Polisi Morol yr UE.

Rhaglen Waith Flynyddol yr UE 2007

Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007, trafododd y pwyllgor Raglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007 gan nodi'r blaenoriaethau a ganlyn:

- Papur Gwyn "Tuag at Raglen Ewropeaidd i Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd ";
- Papur Gwyrdd ar Newid yn yr Hinsawdd ar ôl 2012;

- Dogfen gyfathrebu ar y polisi morol;
- Cynllun Gweithredu Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy;
- Archwilio Cyflwr PAC;
- Dogfen Gyfathrebu ar Strategaeth Iechyd Anifeiliaid 2007-2013;
- Rheoliad ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Gan nad oedd yn bosibl trafod yr uchod cyn diwedd yr Ail Gynulliad, rhestrwyd yr eitemau yn adroddiad y Pwyllgor i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad.

Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

Eglurodd y Pwyllgor ei flaenoriaethau'r gyllideb yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2006 a rhoddodd sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2006. Yn dilyn cytundeb yn ystod trafodaethau rhwng yr holl bleidiau ar gyllideb derfynol y Cynulliad, ar 25 Ionawr, 7 Chwefror 2007 ac 1 Mawrth 2007, trafododd y Pwyllgor ym mha agweddau ar brif grŵp gwariant yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y byddai angen gwneud arbedion er mwyn adfer taliadau Tir Mynydd, sef un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Pwyllgor.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

Roedd enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor yn rhan o 19 o brosesau apwyntio yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Materion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(v))

Ym mis Tachwedd 2006, cyfeiriwyd y Mesur Newid yn yr Hinsawdd at y Pwyllgor er mwyn iddo graffu arno. (Gweler uchod)

Y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (*Rheol Sefydlog* 17)

Cynhaliwyd pum cyfarfod yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn delio ag ef a thrafodwyd 11 o achosion. Mae adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2006 tan fis Mawrth 2007 ynghlwm yn **Atodiad 2**.

5. MATERION TRAWSBYNCIOL

Yn dilyn cytundeb rhwng Panel y Cadeiryddion, wrth lunio'u rhaglenni gwaith, mae'r holl bwyllgorau pwnc yn ystyried yr agweddau hynny ar Adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gydraddoldeb 2004-05, sy'n berthnasol i'w portffolios. Hefyd, ac o gofio cylch gwaith y Pwyllgor, trafodwyd Datblygu Cynaliadwy a'r Gymraeg yn y sesiwn ar 5 Ebrill 2006. Gofynnodd y Pwyllgor i wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i gyflwyno'u sylwadau a'u cyngor i'r Pwyllgor ynghylch perfformiad yr adran, cyn i'r Aelodau graffu ar waith y Gweinidog.

Cyfle Cyfartal

Ar 11 Hydref 2006, craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog o ran cyfraniad Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad at y broses o hyrwyddo Cyfle Cyfartal yn Seithfed Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gyfle Cyfartal 2005-06. Cododd y materion a ganlyn:

- Mynediad i gefn gwlad i gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig
- Tlodi yng nghefn gwlad Cymru ac a oedd camau'n cael eu cymryd i ystyried effaith polisïau ar gymunedau gwledig
- Statws a chyllid ar gyfer gwaith Arsyllfa Wledig Cymru i ddarparu data gwella a monitro'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau mewn ardaloedd gwledig
- Y gwrthdaro a ganfyddir rhwng sicrhau mynediad i adeiladau i bobl anabl a gofynion y drefn gynllunio
- A yw mynediad i lwybrau ar ffermydd yn rhoi ystyriaeth i'r adeg y bydd cytundebau Tir Mynydd, Tir Cymru a Thir Gofal yn cael eu llofnodi

Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylai holl ddogfennau briffio a phapurau'r Pwyllgor gynnwys cyngor a chwestiynau ynghylch materion cydraddoldeb, lle bo hynny'n briodol. O ran monitro cyfle cyfartal wrth graffu ar ddeddfwriaeth, awgrymodd yr Aelodau y dylai holl femoranda esboniadol fod ag adran sy'n egluro sut y mae cyfle cyfartal yn cael ei ystyried wrth ddrafftio deddfwriaeth ac unrhyw effaith y gall deddfwriaeth ei gael ei faterion cydraddoldeb.

ATODIAD 1

Is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006 2006

Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006

Rheoliadau Iawndal Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Defaid a Geifr) (Cymru) 2006

Cod Ymarfer ar gyfer Atal a Rheoli Lledaeniad Llysiau'r Gingroen

Gorchymyn Pysgota Môr (Stoc o Gegdduon Gogleddol) (Cymru) 2006

Is-ddeddf 24 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru: Peiriannau Sefydlog—Gwaharddiadau (Cymru)

Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006

Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006

Cyfarwyddiadau'r Cynllun Masnachu Allyriannau (Cymru) 2006

Rheoliadau Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2007

Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007

Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosb Benodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Gorchymyn Rheolaethau ar Gwn (Heb Fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007

Cynllun Ffioedd a Thaliadau Trwyddedau Awdurdodau Lleol ar gyfer Gweithfeydd ac Offer Symudol Rhan D (Cymru) 2007

Cynllun Ffioedd a Thaliadau Llygredd Aer yr Awdurdodau Gorfodi Lleol (Cymru) 2007

Gorchymyn Canllaw yng Nghyswllt Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9) (Cymru) 2006

Rheoliadau Tocio Cynffonau Cwn Gwaith (Cymru) 2007

Rheoliadau Anffurfio(Gweithdrefnau a Ganiateir) (Cymru) 2007

Mae'r adroddiadau uchod wedi'u gosod gerbron y Cynulliad ac maent i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

ANNEX 2

PWYLLGORAU PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: EBRILL 2006 - MAWRTH 2007

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio o fis Ebrill 2006 tan fis Mawrth 2007.

2 Aelodaeth

Etholir pob Pwyllgor o'r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (neu grŵp o apelau/geisiadau). Etholir yr aelodau o blith aelodau'r Panel Penderfyniadau Cynllunio, sy'n cynnwys yr Aelodau hynny o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad sydd wedi cael hyfforddiant pwrpasol.

3 Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

Amlinellir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn Rheol Sefydlog 17.

4 Cyfarfodydd

Cafodd yr achosion a ganlyn eu hystyried yn ystod cyfnod yr adroddiad:

PDC(2) 2006-04

- Cais cynllunio a alwyd i mewn dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Wm Morrison plc & Shoparama Ltd ar gyfer siop fwyd a maes parcio cysylltiedig ar hen safle Brown-Lenox site, ger yr A470, Pontypridd

- Apêl cynllunio dan Adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Morbaine Ltd ar gyfer siop fwyd dosbarth 1, gorsaf betrol/peiriant golchi ceir, parcio a gwasanaethau a chyfleusterau cysylltiedig yng nghlwb rygbi Pontypridd, Ffordd Sardis, Pontypridd.

PDC(2) 2006-05

- Cais cynllunio a alwyd i mewn dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Mr A Lloyd i godi annedd arfaethedig ac i greu mynedfa newydd i'r briffordd yn Waunbant, Lledrod, Ceredigion

- Apêl Cynllunio dan Adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Redrow Homes (North Wales) Ltd ar gyfer gwaith arfaethedig i adfer hen waith briciau a chwarel, datblygu 300 o aneddiadau, creu safle agored, coedwig, creu cynefin a thirlunio, adeiladu mynedfa newydd, gwell i gerbydau a cherddwyr ar hen safle Lane End Brickworks, Stryd yr Eglwys, Bwcle, Sir y Fflint

PDC(2) 2006-06

- Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Morris Construction i godi datblygiad preswyl cymysg arfaethedig ar dir ger Coed-llai, Sir y Fflint

- Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan by Aberdare Developments ar gyfer gwaith ailddatblygu arfaethedig i greu cyfleusterau preswyl, masnachol a hamdden mewn pum parth ar dir gyferbyn â chanol y dref, Trefsalem, Aberdâr

- Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Dillwyn Productions Ltd i adeiladu cwrs golff arfaethedig yn Llangyfelach, Abertawe

-

PDC(2) 2007-01

- Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Merthyr Village Limited ar gyfer:

  (cam 1) cais llawn (cyf. 020060) - adennill ac adfer tirwedd 83 ha o 244 ha o dir diffaith ac sydd wedi'i ddifetha gan gynnwys ailbroffilio tomenni ac adennill glo o domenni gwastraff dethol.

  (cam 2) cais amlinellol (cyf. 020260) - cynllun datblygu cynhwysfawr i ddarparu siopau, gwasanaethau hamdden, swyddfeydd, gwesty, stadiwm pêl-droed, parc gwledig a defnydd preswyl gyda mynediad, gwasanaethau, parcio a thirwedd cysylltiedig.

PDC(2) 2007-02

5. Mae copïau o Adroddiadau'r Arolygydd a'r llythyrau'n nodi'r penderfyniadau ar yr achosion uchod i'w cael ar wefan y Pwyllgor.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Mawrth 2007